# PWYLLGOR SAFONAU

# DYDD MAWRTH, 30 EBRILL 2024

**PRESENNOL:** D. Evans (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
C. Davies

**Aelod Cymunedol:-**
Y Cynghorydd P. Rogers

**Y Cynghorwyr:**
B.W. Jones

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth Aelodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Cyfarfod Rhithwir - 10.15 - 10.26 am**

[Sylwer: oherwydd anawsterau technegol dechreuodd y cyfarfod am 10:15]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs M. Dodd, Mr F. Phillips a'r Cynghorydd G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD TREF CASTELL NEWYDD EMLYN HAZEL EVANS.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Hazel Evans, Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn, am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad, gwneud sylwadau ysgrifenedig a phleidleisio mewn perthynas â busnes cyngor tref ynghylch caniatáu tenantiaeth yn Hen Adeilad y Llys, Castellnewydd Emlyn.

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Evans fuddiant personol a rhagfarnol mewn mater o'r fath gan ei bod yn Gyfarwyddwr di-dâl ar un o'r ymgeiswyr, sydd yn elusen ei hun.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Evans yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(d) – roedd natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(f) – byddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor pe bai'n caniatáu cais y Cynghorydd Evans, byddai angen iddo benderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth ,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 2 (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Hazel Evans i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig, ond NID pleidleisio, ar fusnes y cyngor mewn cyfarfodydd Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn ynghylch caniatáu tenantiaeth Hen Adeilad y Llys, Castellnewydd Emlyn, a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y tymor etholiadol presennol.**

## 4. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

________________________ ________________

**CHAIR** **DATE**